
Digidol 2030

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Straeon Defnyddwyr

Adolygiad canol tymor Digidol 2030




Awst 2026

Jisc

Adolygiad Canol Tymor Digidol 2030 Straeon defnyddwyr o bob rhan o ddysgu digidol ôl-16 yng Nghymru

Digidol 2030 yw'r fframwaith strategol ar gyfer dysgu digidol ar draws addysg ôl-16 yng Nghymru. Mae'r straeon byrion hyn yn darlunio rhai o'r themâu a'r datblygiadau sy'n codi dro ar ôl tro a nodwyd drwy adolygiad canol tymor o'r fframwaith. Gan dynnu ar fyfyrdodau a rennir gan staff a dysgwyr ledled Cymru, maent yn tynnu sylw at sut mae dysgu digidol yn cael ei brofi mewn gwahanol gyd-destunau ôl-16.

Gyda'i gilydd, maent yn adlewyrchu system sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol, wrth barhau i lywio'r heriau sy'n dod gydag ymgorffori dysgu digidol yn fwy cyson a chynaliadwy dros amser.





Digidol 2030 fel pwynt cyfeirio strategol

Disgrifiodd uwch arweinydd mewn coleg addysg bellach (AB) Digidol 2030 fel pwynt cyfeirio strategol defnyddiol yn hytrach na menter ar wahân i'w mabwysiadu.

Roedd y fframwaith yn cyd-fynd yn fras â'r cyfeiriad yr oedd y sefydliad eisoes yn ei gymryd ac yn helpu i ddod â mwy o strwythur a dilysrwydd i'r gwaith hwnnw drwy ddarparu iaith gyffredin ar gyfer cynllunio, blaenoriaethu a gwella. Gwerthfawrogwyd ei natur nad oedd yn rhagnodol, gan ganiatáu i'r coleg ei ddehongli mewn ffyrdd a oedd yn gwneud synnwyr i'w ddysgwyr, ei staff a'r cyd-destun lleol.

Pan ddaeth cyllid yn gysylltiedig â Digidol 2030: Galwad i Weithredu ar gael, fe helpodd y sefydliad i symud yn gyflymach o fwriad i weithredu. Roedd buddsoddiad mewn seilwaith ac offer yn cefnogi blaenoriaethau a oedd eisoes wedi'u nodi, gan gynnwys gwella mynediad at offer digidol a chreu sylfeini mwy dibynadwy ar gyfer dysgu cyfunol a hyblyg.

Myfyriodd yr uwch arweinydd hefyd fod y math hwn o fuddsoddiad wedi creu lle i feddwl yn fwy bwriadol am ddatblygiad digidol tymor hwy, gan gynnwys gallu staff a phrofiad ehangach y dysgwr. Fe wnaethon nhw nodi, lle mae cyllid wedi'i gysylltu'n dynn â chyfalaf neu ddarpariaeth tymor byr, fod cyfyngiadau ar faint y gall sefydliadau ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith sefydliadol dyfnach sydd ei angen i ymgorffori arfer digidol yn gyson dros amser.

Ar draws yr adolygiad, disgrifiwyd Digidol 2030 fel rhywbeth a helpodd i ddilysu a chyflymu blaenoriaethau a oedd eisoes yn dod i'r amlwg.



Profiad dysgwr sy'n teimlo'n gydgysylltiedig

Disgrifiodd arweinydd ansawdd mewn coleg addysg bellach (AB) sut roedd adborth dysgwyr wedi tynnu sylw at wahaniaethau yn y ffordd yr oedd offer a llwyfannau digidol yn cael eu defnyddio ar draws un rhaglen.

O fewn yr un cwrs, roedd dysgwyr yn dod ar draws gwahanol ffyrdd o gyrchu deunyddiau, cyflwyno gwaith a derbyn cyfathrebiadau. Mewn rhai modiwlau, roedd popeth wedi'i drefnu'n glir o fewn prif blatfform y coleg. Mewn eraill, roedd staff yn defnyddio strwythurau gwahanol neu sianeli ychwanegol, a oedd yn golygu bod yn rhaid i ddysgwyr yn aml weithio allan ble i ddod o hyd i wybodaeth a beth oedd yn ddisgwyliedig ganddynt bob tro.

Nid oedd yr un o'r dulliau hyn o reidrwydd yn aneffeithiol ar eu pen eu hunain. Yr her oedd effaith gronnus gorfod addasu dro ar ôl tro. I ddysgwyr oedd yn cydbwyso astudio ag ymrwymiadau eraill, neu'r rhai oedd yn dal i ddatblygu hyder digidol, creodd yr anghysondeb rhwystrau y gellid eu hosgoi.

Roedd yr arweinydd ansawdd yn myfyrio bod staff wedi bod yn gweithredu gyda bwriadau da, ond bod llai o drafodaeth ar y cyd wedi bod ynghylch sut olwg ddylai fod ar brofiad digidol cydlynol.

Fe wnaeth hyn ysgogi'r tîm cwricwlwm i weithredu. Neilltuwyd amser i gytuno ar ddisgwyliadau cyffredin ynghylch sut y trefnwyd deunyddiau, sut y triniwyd cyfathrebu a sut y cyflwynwyd gwaith. Nid oedd rhaid i staff addysgu yn yr un ffyrdd, ond roedd y fframwaith a rennir yn ei gwneud hi'n haws i ddysgwyr lywio eu dysgu ar draws y rhaglen.

Nododd yr adolygiad fod yr her yn ymwneud llai â ph'un a oedd dulliau digidol yn cael eu defnyddio, a mwy â pha mor gydlynol a rhagweladwy oedd y profiad gan ddysgwyr ar draws rhaglenni a chyrsiau.



Cynhwysiant, mannau cychwyn ac arfer digidol priodol

Disgrifiodd uwch arweinydd mewn coleg addysg bellach (AB) sut roedd gwella cynhwysiant digidol wedi ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad feddwl y tu hwnt i fynediad sylfaenol a chanolbwyntio'n fanylach ar sut roedd dysgwyr yn profi dysgu digidol yn ymarferol.

Un maes o newid oedd lleihau dibyniaeth dysgwyr ar staff i gyrchu dyfeisiau. Yn hytrach na dibynnu ar diwtoriaid i roi offer pan oedd ei angen, cyflwynodd y coleg ddull mwy hyblyg a oedd yn caniatáu i ddysgwyr gasglu a dychwelyd dyfeisiau yn annibynnol. Dechreuodd y sefydliad hefyd symud i ffwrdd o'r dybiaeth bod yn rhaid i ddysgu digidol ddigwydd mewn ystafelloedd TG sefydlog, gan arbrofi gyda mannau dysgu mwy symudol ac addasadwy.

Bwriad y newidiadau oedd cefnogi hyblygrwydd, ond roedd ganddynt hefyd fudd cynhwysiant clir. Roedd dysgwyr a allai fod wedi cael trafferth cyrchu dyfeisiau'n gyson yn flaenorol yn gallu cymryd rhan yn well mewn dysgu gyda llai o rwystrau. Sylwodd staff fod mynediad digidol yn dod yn rhan gynyddol o brofiad arferol y dysgwr yn hytrach na rhywbeth yr oedd yn rhaid ei drefnu'n arbennig.

Myfyriodd yr uwch arweinydd fod y math hwn o gynnydd yn dibynnu ar gydnabod gwahanol fannau cychwyn dysgwyr a dylunio o'u cwmpas. Roedd arfer digidol effeithiol, yn y cyd-destun hwn, yn golygu creu amodau lle gallai dysgwyr gymryd rhan yn fwy annibynnol, yn fwy hyderus a chyda llai o rwystrau y gellid eu hosgoi.

Myfyriodd sawl cyfranogwr nad yn unig y mae cynhwysiant digidol yn cael ei lunio gan y cwestiwn a yw dyfeisiau a chysylltedd ar gael, ond gan sut mae mynediad yn cael ei drefnu a'i brofi yn ymarferol. Daeth dylunio o amgylch mannau cychwyn gwirioneddol dysgwyr, yn hytrach na rhai tybiedig, i'r amlwg fel rhan bwysig o greu cyfleoedd dysgu digidol mwy cynhwysol.



Cynnydd digidol mewn prentisiaethau

Disgrifiodd arweinydd sy'n gweithio ym maes prentisiaethau sut roedd dulliau digidol wedi gwella mynediad a hyblygrwydd yn amlwg.

Roedd cyfarfodydd o bell, cyflwyno cyfunol a chyfathrebu ar-lein wedi lleihau teithio diangen ac wedi ei gwneud hi'n haws aros mewn cysylltiad â dysgwyr ar draws ardal ddaearyddol eang. Gallai rhai agweddau ar gefnogi ac adolygu ddigwydd yn fwy effeithlon nawr nag a fyddai wedi bod yn bosibl ychydig flynyddoedd ynghynt.

Fodd bynnag, roedd dysgwyr yn aml wedi'u lleoli mewn gweithleoedd gydag amgylcheddau digidol, disgwyliadau a chyfyngiadau gwahanol iawn. Mewn rhai sectorau, roedd mynediad at ddyfeisiau neu systemau yn ystod y diwrnod gwaith yn gyfyngedig. Mewn eraill, roedd polisïau cyflogwyr, gofynion llywodraethu gwybodaeth neu natur ymarferol y rôl yn llunio'r hyn y gellid ei wneud yn ddigidol yn realistig.

Myfyriodd yr arweinydd fod yn rhaid cydbwyso uchelgais ddigidol â realiti'r ddarpariaeth bob amser. Roedd arfer effeithiol yn dibynnu ar ddeall cyd-destun y dysgwr, amgylchedd y cyflogwr a chyfyngiadau'r cymhwyster ei hun.

Ar draws yr adolygiad, disgrifiodd darparwyr bwysigrwydd cydbwyso uchelgais ddigidol â realiti amgylcheddau cyflogwyr, disgwyliadau sector a chyfyngiadau cyflawni. Yn aml, roedd cynnydd yn cael ei lunio cymaint gan yr amodau ehangach hyn â gan allu darparwyr yn unig.



Ansicrwydd AI a disgwyliadau sy'n newid

Disgrifiodd ymarferydd a oedd yn gweithio ar draws partneriaeth prentisiaeth yr her o lywio AI mewn synnwyr ymarferol, o ddydd i ddydd.

Roedd canllawiau yn bodoli ar lefel sefydliadol, ond nid oedd disgwyliadau bob amser yn gyson ar draws y gwahanol leoliadau lle'r oedd addysgu ac asesu'n digwydd. Weithiau roedd dysgwyr yn derbyn negeseuon gwahanol am yr hyn oedd a'r hyn nad oedd yn dderbyniol, yn dibynnu ar ba ran o'r rhaglen yr oeddent yn ymwneud â hi.

Myfyriodd yr ymarferydd fod staff yn ceisio ymateb yn feddylgar ac yn gyfrifol ond roedd cyflymder y newid yn golygu bod canllawiau sefydliadol yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â'r hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd yn yr ystafelloedd dosbarth a'r gweithleoedd. Mewn llawer o achosion, roedd arbrofi yn llywio ymarfer yn hytrach na'r ffordd arall.

Ar yr un pryd, disgrifiodd yr un ymarferydd fuddion go iawn a diriaethol. Roedd offer AI wedi gwneud rhai agweddau ar adborth yn gyflymach ac yn fwy hygyrch ac wedi lleihau rhywfaint o'r llwyth gwaith gweinyddol a oedd wedi llyncu llawer o amser yn flaenorol. Y mater oedd llai ynghylch a oedd AI yn ddefnyddiol a mwy ynghylch sut y gellid deall, cyfleu a llywodraethu ei ddefnydd yn gyson ar draws gwahanol leoliadau dysgu ac asesu.

Disgrifiodd cyfranogwyr yn gyson AI fel rhywbeth sydd eisoes yn llunio arferion addysgu, dysgu ac asesu o ddydd i ddydd. Roedd yr her yn gynyddol ynghylch sut y gellid deall, cyfleu a llywodraethu ei ddefnydd yn gyson.



Meithrin hyder digidol drwy gyfranogiad

Myfyriodd arweinydd digidol mewn coleg addysg bellach (AB) ar ddysgwr a ddaeth yn rhan o gefnogi gweithgareddau digidol ehangach o fewn y sefydliad y tu allan i ofynion ffurfiol eu cwrs.

Datblygodd yr hyn a ddechreuodd fel cyfranogiad achlysurol yn ystod sesiynau ymarferol dros amser yn rôl wirfoddol fwy rheolaidd yn cefnogi'r tîm digidol gyda gweithgareddau, datrys problemau ac ymgysylltu â dysgwyr.

Daeth y dysgwr yn gynyddol hyderus yn gweithio gydag offer digidol a chefnogi eraill oedd yn llai cyfarwydd â nhw. Disgrifiodd y staff nhw fel rhywun a oedd wedi dod yn rhan ddibynadwy a gweladwy o'r amgylchedd digidol ehangach o fewn y sefydliad, er nad oedd hyn yn rhywbeth a gynlluniwyd yn ffurfiol fel rhan o raglen y dysgwr.

Ar ôl cwblhau eu cymhwyster, symudodd y dysgwr i rôl ddigidol yn y diwydiant. Yn ddiweddarach, fe wnaethant ddisgrifio'r profiadau hyn fel rhan bwysig o feithrin hyder, gallu ymarferol a theimlad bod gwaith digidol yn rhywbeth y gallent gyfrannu'n weithredol ato.

Myfyriodd yr aelod staff nad oedd hyn wedi bod yn ganlyniad wedi'i gynllunio. Datblygodd o amgylchedd dysgu lle'r oedd arfer digidol yn weladwy, yn bwrpasol ac yn cael ei rannu'n agored rhwng staff a dysgwyr.

Fe wnaethon nhw nodi bod hyder gydag offer digidol yn aml yn datblygu trwy gyfranogiad a phrofiad bob dydd yn hytrach na thrwy hyfforddiant sgiliau digidol ffurfiol yn unig.